# Ynyr Ymdrech

Un diwrnod gwlyb roedd Ynyr wrthi yn brysur yn y neuadd chwaraeon yn ymarfer sgiliau pêl. Roedd Ynyr wedi cychwyn chwarae pêl fasged. Roedd o wrth ei fodd yn cyd-chwarae gyda'i ffrindiau a sgorio pwyntiau i'r tîm. Penderfynnodd Ynyr ddysgu triciau pêl newydd. Un tric roedd Ynyr eisiau dysgu oedd cydbwyso pêl ar un bys a'i droi.

Roedd Ynyr yn ymwybodol y bydd y tric yma yn cymryd llawer o amser i'w berffeithio. Aeth ati i ymarfer pob amser chwarae. Pob dydd roedd Ynyr yn gwella. Doedd Ynyr byth yn rhoi gorau iddi. A rhoddodd yr ymdrech gorau i ddysgu y sgil yma.

Ar ôl wythnosau yn ymarfer roedd Ynyr wedi llwyddo. Mae Ynyr wrth ei fodd yn dangos tric newydd ar y cwrt pêl fasged.